# P-04-555 Rhwystrwch y cynlluniau anfoesol a llym arfaethedig i'w gwneud yn orfodol i ficrosglodynnu cŵn

**Geiriad y ddeiseb:**

Yr ydym yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i annog Llywodraeth Cymru i roi'r gorau i'w chynlluniau arfaethedig i'w gwneud yn orfodol i ficrosglodynnu cŵn. Nid oes tystiolaeth bod microsglodynnu cŵn yn fwy effeithiol, yn rhatach nac yn garedicach i gŵn. Profodd y dull hwn yn llawer drutach na'r dulliau arferol, fel tatŵs neu dagiau parhaol; mae'n amharu ar gŵn, ac o bosibl yn amharu ar hawliau sylfaenol a moesegol anifeiliaid. Mae tystiolaeth gynyddol hefyd fod y sglodion yn gallu achosi canser mewn anifeiliaid. Coler â thag yw'r dull hawsaf a mwyaf effeithiol o ganfod perchennog ci. Gall unrhyw un a all ddarllen ddefnyddio'r system hon. Yn ôl grwpiau ymgyrchu fel ChipMeNot, byddai microsglodynnu yn cael effaith wirioneddol ar yr amgylchedd o ganlyniad i'r sglodion eu hunain, yr angen am offer darllen, y batris i bob offer darllen, y cyfrifiaduron i weinyddu'r gronfa ddata, ac ati.

**Prif ddeisebydd:** Sovereign Wales + ChipMeNot

**Ysytyriwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor:** 13 Mai 2014

**Nifer y llofnodion:** 11